

Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru

Mehafin 2023

1. Y cefndir

1. Ar 23 Ionawr 2023, darlledodd y BBC raglen ddogfen, Welsh Rugby under the Spotlight, a oedd yn cynnwys honiadau difrifol am rywiaeth, casineb at fenywod, homoffobia a hiliaeth yn Undeb Rygbi Cymru (URC). Mae manylion yr honiadau ar gael yn stori newyddion y BBC a gyhoeddwyd ar yr un diwrnod.¹

2. Mae URC yn sefydliad annibynnol sy'n derbyn swm bach o'i incwm (tua 1 y cant) gan Chwaraeon Cymru, Llywodraeth Cymru a'r corff a ariennir gan y Loteri Genedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu chwaraeon. Ond, o ystyried difrifoldeb yr honiadau, a pha mor ganolog yw rygbi i fywyd cyhoeddus Cymru, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig bod yr ymateb i'r honiadau hyn yn cael ei drafod yn y Senedd. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi derbyn gohebiaeth gan nifer o bartïon (gan gynnwys y cynrychiolwyr cefnogwyr Joint Supporters Group Cymru, Arweinydd yr Wrthblaid Andrew RT Davies AS, a thri Aelod Seneddol dros etholaethau yng Nghymru) yn galw arnom i ymchwilio i'r mater. Dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon hefyd y byddai'n "croesawu" ymchwiliad gan bwyllgor Senedd², a dywedodd y Prif Weinidog fod:

"... swyddogaeth bosibl i un o bwyllgorau'r Senedd o ran helpu i sicrhau llwybr i URC at well dyfodol trwy ddefnyddio'r pwerau sydd gan bwyllgor yma i ymchwilio i'r honiadau..."³

¹ BBC News: [Wales rugby: Former women's boss says colleague made rape jibe](#) - 29 Ionawr 2023 (Saesneg yn unig)

² Cofnod y Trafodion: [Y Cyfarfod Llawn - 25 Ionawr 2023, paragraff 186](#)

³ Cofnod y Trafodion: [Y Cyfarfod Llawn - 24 Ionawr 2023, paragraff 24](#)



3. Felly, gwnaethom gynnal cyfarfodydd cyhoeddus gydag URC, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a Chwaraeon Cymru. Nid ymchwilio i'r honiadau eu hunain oedd diben y sesiynau hyn. Roeddem am archwilio ymateb URC, a'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac URC.

4. Gan fod y Pwyllgor yn dymuno ymateb yn brydlon i sefyllfa a oedd yn esblygu'n gyflym, nid oedd gan y gwaith hwn gylch gorchwyl ffurfiol. Dywedodd llythyr gwahoddiad URC:

“Bydd y sesiwn hon yn gyfle i drafod y materion sydd wedi codi yr wythnos hon yn ogystal â thrafod ymateb arfaethedig yr Undeb ar ffurf y tasglu a gyhoeddwyd gennych yn ddiweddar. Bydd y Pwyllgor hefyd yn gwahodd Llywodraeth Cymru i drafod pa gamau y mae'n eu cymryd mewn ymateb.

Mae'r Pwyllgor yn glir nad ymchwiliad i'r honiadau yw hwn. Mae'n gyfle i drafod y materion sydd wedi codi a thrafod camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cyhoeddi o ganlyniad i hyn.”⁴

5. Nododd llythyr gwahoddiad Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon fod y “Pwyllgor hefyd yn awyddus i ddeall gweithgarwch Llywodraeth Cymru yn y mater hwn” ac mai nod y sesiwn fyddai “i gasglu gwybodaeth am yr honiadau a wnaed yn erbyn Undeb Rygbi Cymru a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i hynny”.⁵

6. Nododd llythyr gwahoddiad Chwaraeon Cymru:

“Bydd y sesiwn hon yn gyfle i drafod y materion sydd wedi codi ers i'r rhaglen gael ei darlledu, a bydd yn gyfle hefyd i'r Pwyllgor ddeall yn well rôl a gwaith Chwaraeon Cymru o ran y camau gweithredu sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi, a llywodraethiant ym maes chwaraeon yn fwy cyffredinol.”⁶

⁴ [Llythyr at yr Undeb Rygbi Cymru](#) – 27 Ionawr 2023 [PDF 75KB]

⁵ [Llythyr at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip](#) – 27 Ionawr 2023 [PDF 75KB]

⁶ [Llythyr at y Farwnes Grey-Thompson, Chwaraeon Cymru](#) – 3 Chwefror 2023 [PDF 103KB]

2. Undeb Rygbi Cymru (URC)

7. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ieuan Evans, Cadeirydd URC, a Nigel Walker, a oedd newydd ei benodi'n Brif Swyddog Gweithredol dros dro URC, ar 2 Chwefror 2023⁷. Erbyn hynny, ers darlledu'r rhaglen ddogfen, roedd URC wedi cyhoeddi y byddai'n sefydlu tasglu allanol i archwilio honiadau o rywiaeth, hiliaeth a chasineb at fenywod yn y corff llywodraethu, ac roedd y Prif Swyddog Gweithredol, Steve Phillips, wedi ymddiswyddo, gyda'r Cyfarwyddwr Perfformiad Nigel Walker yn cymryd ei le dros dro.

8. Yn dilyn cyfarfod 2 Chwefror 2023, ysgrifennodd y Pwyllgor at URC yn ceisio gwybodaeth bellach ac yn mynegi rhai safbwyntiau cychwynnol.⁸ Mae ymateb URC ar gael ar y wefan.⁹

Roedd URC wedi bod yn ddall i faint y broblem

9. Dywedodd Mr Evans wrth y Pwyllgor:

"... I've been humbled and harrowed by what I've heard, particularly the impact on our female staff and players. I think we all know that we should do more, we need to do more to make the game and our organisation more inclusive, but I was shocked by the personal stories highlighted by our former staff in the programme, and I can only apologise once more to them, and not only them but people elsewhere affected by the allegations in that programme as well, and to say that I will work night and day to ensure that all of our staff feel safe and valued."¹⁰

10. Dywedodd Mr Walker fod URC wedi bod yn ddall i faint y broblem, ac y bu rhybuddion ers cryn amser. Esboniodd:

⁷ [Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023](#)

⁸ [Llythyr at yr Undeb Rygbi Cymru - 3 Chwefror 2023 \[PDF 97KB\]](#)

⁹ [Ymateb gan Undeb Rygbi Cymru - 10 Chwefror 2023 \[PDF 253KB\] \(Saesneg yn unig\)](#)

¹⁰ Cofnod y Trafodion: [Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 12](#)

“When it’s presented as graphically as it was during the BBC Wales programme the week before last, it hits you like a 10-tonne truck.”¹¹

Panel Adolygu Annibynnol: URC wedi ymrwymo i weithredu'r argymhellion

11. Ar 26 Ionawr 2023, dywedodd Cadeirydd Bwrdd URC, Ieuan Evans, wrth gynhadledd i'r wasg y byddai'n sefydlu tasglu allanol i archwilio honiadau o rywiaeth, hiliaeth a chasineb at fenywod yn y corff llywodraethu.¹² Ar 3 Chwefror 2023, cadarnhaodd URC y bydd y Fonesig Anne Rafferty yn cadeirio Panel Annibynnol URC, gyda'r cylch gorchwyl canlynol:

- *“The culture within the WRU;*
- *The actions and behaviour of leadership [at all levels] within the WRU;*
- *The extent to which employees feel able to voice concerns or to challenge inappropriate and discriminatory language and behaviour;*
- *The effectiveness of the WRU’s Whistleblowing Policy and Procedures;*
- *WRU’s actions in response to individual complaints set out in the BBC Wales Investigates programme of 23 January 2023.”¹³*

12. Bydd yr Adolygiad yn ystyried y cyfnod o 2017 hyd heddiw, ond dywedodd URC y gallai'r Cadeirydd newid yr amserlen yng ngoleuni tystiolaeth sy'n dod i'r fei.¹⁴

¹¹ Cofnod y Trafodion: [Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Chwefror 2023, paragraff 14](#)

¹² BBC Sport: [Welsh Rugby Union: Chair Ieuan Evans launches external taskforce review with Steve Phillips to stay](#) – 25 Ionawr 2023 (Saesneg yn unig)

¹³ Undeb Rygbi Cymru: [Chair of the WRU Independent Review Panel announced](#) – 3 Chwefror 2023 (Saesneg yn unig)

¹⁴ Undeb Rygbi Cymru: [Chair of the WRU Independent Review Panel announced](#) – 3 Chwefror 2023 (Saesneg yn unig)

13. Dywedodd Nigel Walker wrth y Pwyllgor y bydd adroddiad yr Adolygiad yn gyhoeddus a bod URC, fel corff, wedi ymrwymo i weithredu'r argymhellion hynny. Pwysleisiodd:

*"We are opening our doors and our books.[...]The review could take any direction that the chair suggests it should take."*¹⁵

14. Gofynnwyd i Mr Walker a fyddai pobl a oedd wedi'u rhwymo gan Gytundebau Peidio â Datgelu yr oeddent wedi ymrwymo iddynt gydag URC yn gallu cyfrannu at yr adroddiad:

*"If it's possible, I would look to facilitate it, so that everybody who has been affected, those people who the panel would be interested in interviewing, can be interviewed."*¹⁶

15. Ymrwymodd i roi diweddariadau interim i'r Pwyllgor, a thrafododd yr amseroedd:

*"The sooner the panel can report, the sooner we can get on to putting things right. We are doing other things in the background; we're not waiting for the review panel...But I share your concerns. If it were to take 10 or 12 months, that would be too long as far as I'm concerned."*¹⁷

Cytundebau peidio â datgelu a chymau disgyblu

16. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor gydag URC, ysgrifennodd at yr Undeb yn gofyn am fanylion:

- nifer y cytundebau peidio â datgelu y mae wedi'u defnyddio yn y pum mlynedd diwethaf;
- nifer yr aelodau staff sydd wedi'u disgyblu neu sy'n destun cwynion yn ymwneud â hiliaeth, rhywiaeth, casineb at fenywod a homoffobia honedig dros yr un cyfnod.

¹⁵ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 65](#)

¹⁶ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 99](#)

¹⁷ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 75](#)

17. Dywedodd ymateb URC:

“Whilst the Committee asked us about non-disclosure agreements specifically, we will often use these as part of commercial agreements. Settlement or compromise agreements are used from time to time when ending employment for a variety of reasons. In providing the relevant information and as requested by the Committee we have considered settlement agreements in relation to allegations of sexism, racism and homophobia.

The WRU Group has entered into a settlement agreement on four occasions in the last five years in relation to a grievance that had been raised in relation to these issues. Two or three of the four settlement agreements relate to the issues that might come under the remit of the Taskforce review. I am sure you will understand that for a number of reasons, I cannot provide any further detail of the specific cases but we would of course be happy for those who have entered into settlement agreements to participate in the Taskforce review if they so wished.

The WRU Group has been in receipt of six grievances in the last five years that relate to either sexist, racist or homophobic behaviour. With regard to procedures that have been concluded, three members of staff have been subject to disciplinary action following allegations of sexist, racist or homophobic behaviour.”¹⁸

Adolygiad 2021 o rygbi menywod

18. Yn 2021, comisiynodd URC adolygiad annibynnol i ystyried pa gamau oedd angen eu cymryd i wella'r ddarpariaeth ar gyfer chwaraewyr benywaidd elît ac i fynd i'r afael â phroblemau a oedd wedi codi o fewn ei strwythurau rhyngwladol.¹⁹

19. Ni chyhoeddwyd adroddiad yr adolygiad ac, ers darlledu rhaglen ddogfen y BBC, mae Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon a'r Pwyllgor hwn wedi galw am iddo gael ei gyhoeddi.

¹⁸ [Ymateb gan Undeb Rygbi Cymru](#) - 10 Chwefror 2023 [PDF 253KB] (Saesneg yn unig)

¹⁹ Undeb Rygbi Cymru: [Women's Performance mid-term review](#) - 14 Mai 2021 (Saesneg yn unig)

20. Yn ystod ein cyfarfod ar 2 Chwefror 2023, dywedodd Nigel Walker:

*"The report will not make comfortable reading for those involved in the WRU, but I personally have no objection to the report being published."*²⁰

21. Esboniodd:

"When I read the review, I was shocked as to the extent of the problem. There are 40 recommendations in the review, and it was obvious that the Welsh Rugby Union had failed women's rugby. [...]

*We have made enormous progress against the 40 recommendations. [...]Probably 32 or 33 of those recommendations have been implemented in full."*²¹

22. Dywedodd swyddogion Chwaraeon Cymru wrthym nad oeddent wedi darllen yr adroddiad, a dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd wedi cael ond 20 munud i ddarllen copi.

23. Cafodd y Pwyllgor gopi o'r argymhellion²² yn yr adroddiad gan URC. Daeth y ddogfen hon i'r casgliad a ganlyn:

"The WRU is facing a significant number of risks not only in respect of the women's performance programme, but as a National Governing Body for rugby in Wales. These include:

- *Strategic failure to deliver the WRU's overarching strategy, including women's performance goals. This failure could also apply to community and development objectives as young players drop out or move to England to play and are lost to the Welsh game*
- *Reputational risk – the perceived intransigence and reluctance to fully commit to women's performance in*

²⁰ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Chwefror 2023, paragraff 33](#)

²¹ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Chwefror 2023, paragraffau 27 a 29](#)

²² [Undeb Rygbi Cymru: Women's Performance Rugby: Mid Term Strategy Review Recommendations](#) – Gorffennaf 2021 [PDF 575KB] (Saesneg yn unig)

respect of investment, profile, culture and leadership will only serve to reinforce views of the WRU as a NGB for men's rugby with little interest in the female game

- *Legal risk – There is the potential for individuals within the game (currently and formerly) to challenge the WRU with some worrying examples of what could be defined as unfavourable treatment and a lack of equitable provision provided through this review*
- *Financial risk – there is the potential for significant opportunity cost as the WRU has, to date, failed to assess, either in an integrated business planning model, or through discreet planning, the commercial value of women's rugby. This includes the specific asset value of the women's performance squad to partners, sponsors, kit suppliers and others."*

Ymddiswyddiad Amanda Blanc: siom enfawr

24. Ym mis Tachwedd 2021, ymddiswyddodd Amanda Blanc - Prif Swyddog Gweithredol cwmni yswiriant Aviva - o fwrdd URC. Ym mis Mehefin 2022, esboniodd i'r BBC ei bod yn teimlo bod angen moderneiddio Bwrdd URC, bod angen cymryd gêm y menywod o ddifrif a buddsoddi ynddi, ac nad oedd unrhyw un wedi gwrandao arni.²³ Mewn pennod o raglen BBC Radio 4, Desert Island Discs, siaradodd am y sylwadau gwrthfenywod a dderbyniodd wrth weithio i URC.²⁴

25. Ar 2 Chwefror 2023, trafododd Ieuan Evans ymddiswyddiad Amanda Blanc:

"It's incredibly disappointing that a woman of her standing, her reputation, a FTSE 100 company chief executive of, listed in Forbes as one of the most influential people in the world—. I pay tribute to her and share her frustration that she felt she had to leave her role on the professional rugby board. We need to learn from our experience and her comments, and I just hope that we never are in that position again. It's obviously

²³ BBC Sport: [Amanda Blanc: Aviva chief says she left Welsh rugby after 'not being listened to'](#) - 15 Mehefin 2023 (Saesneg yn unig)

²⁴ BBC Sport: [Amanda Blanc: Former Welsh Rugby Union board member discusses experience of misogyny](#) - 12 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

outrageous that she had to deal with some appalling comments whilst giving her time to rugby in Wales and she felt frustrated on behalf of our female players. Hopefully, we are making the changes that she would like to see. And I found her comments alarming, and our response to date has not been enough—not been remotely enough—but we are driven to make sure that we are moving forward.”²⁵

Amrywiaeth mewn rygbi: nid ydym yn wirioneddol gynrychiolgar o'n gêm na'n gwlad

26. Ar 2 Chwefror 2023, trafododd Ieuan Evans y diffyg amrywiaeth mewn rygbi, a pha mor bwysig yw'r gêm i fywyd Cymreig:

“We're not truly representative of our game and our nation. We're the national game of Wales. We thrive on community. We have a sense of community, playing as a nation, like no other. [...] We're embedded in every community across the country, the length and breadth of the country. We provide an invaluable role in those communities. Where many communities are struggling, where high streets are closing, where there are very few things open, the rugby club stays open. And we have to ensure that that remains. But we also need to be representative. The game is changing. Societal changes mean the game's changing. We have to be aware of that. We have to be mindful of that. We have to be at the forefront of those changes and be representative.”²⁶

Newidiadau gweithredol: URC ddim yn llaesu dwylo

27. Roedd swyddogion URC yn awyddus i bwysleisio i'r Pwyllgor nad oeddent, fel y dywedodd Nigel Walker, yn llaesu dwylo yn aros am yr adolygiad²⁷. Mewn llythyr i

²⁵ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 118](#)

²⁶ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 133](#)

²⁷ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 194](#)

Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2023, amlinellodd URC y newidiadau gweithredol a oedd wedi digwydd, neu ar y gweill:

- *“We appointed a new People Director a year ago and we have invested in new procedures and widespread mandatory training to make sure that we work together to develop every day working culture which is professional, inclusive and welcoming.*
- *Our HR team has been restructured and a further two team members, including an Equality, Diversity and Inclusion Manager to provide more dedicated support to our teams.*
- *The HR Team has sought external expertise to provide advice and support in reviewing all of its people policies in 2022, which includes our EDI, whistleblowing and grievance policies, to ensure these are as robust as possible.*
- *We have an internal working group focused on inclusion and diversity conversations and EDI sponsors at Board and Executive level.*
- *Since 2021, all staff and board members have completed EDI training with external partners.*
- *We engaged with Chwarae Teg last October and have staff currently on their Inclusive Leadership Programme.*
- *We put in place six months ago an anonymous, external whistleblowing line for staff to be able to raise any issues in a safe and supported way.*
- *We have a suggestion box in place where staff can make anonymous suggestions in an informal manner, alongside a new area on our internal intranet where staff can look up how to report any concerns and access support resources.*
- *Our induction has been renewed so that new joiners are now given information on who their HR contact is and*

how they support and an introduction from our EDI Manager alongside other relevant information when starting.

- *We carried out a staff survey in September 2022 which has given us valuable insight into our current staff views on the organisation and areas for improvement. We also offered all staff the opportunity to participate in EDI focus groups in August 2022, to gain their feedback on experiences and thoughts on our future priorities.*
- *This is an ongoing process and we have further mandatory EDI training for board members and community game representatives.”²⁸*

Llywodraethu: cytunwyd ar strwythurau newydd gyda chymeradwyaeth o 97 y cant.

28. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd URC wedi ceisio newid ei strwythurau llywodraethu, i gyflwyno amrywiaeth o ran rhywedd ac arbenigedd, ond mae wedi methu â chael ei aelodaeth i bleidleisio dros y newidiadau hyn. Ym mis Tachwedd 2022, pleidleisiodd 66 y cant o blaid newid, sydd o dan y trothwy o 75 y cant sydd ei angen, ac ymddiswyddodd y Cadeirydd ar y pryd, Rob Butcher, yn sgil hynny.

29. Yn dilyn rhaglen ddogfen y BBC, cyflymodd URC gynlluniau ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Eithriadol i geisio cael yr aelodaeth i bleidleisio dros y newidiadau hyn unwaith eto.

30. Ar 2 Chwefror 2023, esboniodd Cadeirydd URC Ieuan Evans:

“We commissioned a board and governance review in 2022. The findings were accepted in full by the board, and a sub-group worked on a set of recommendations, which were then approved by the board. Yesterday, we announced our proposals to change the composition of the board and council. These changes will lead to an independent chair, which was part of the recommendations, and a skills-based, diverse board,

²⁸ [Llythyr gan Undeb Rygbi Cymru at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip](#) - 1 Chwefror 2023 [PDF 222KB] (Saesneg yn unig)

which was part of the recommendations. We're very much signed up to this. We will be taking this to our clubs on 26 March, or earlier if we can. So, we have totally, as a board, accepted it in its entirety.”²⁹

31. Ar 2 Chwefror 2023, esboniodd Mr Walker bwysigrwydd y newidiadau hyn ar gyfer hirhoedledd y gêm:

“Changing the board or the governance of the WRU is not going to solve all the ills of the Welsh Rugby Union. By having that focus and that diversity of opinion, diversity of skill set, on the board, you increase the chances of the board challenging the executive and asking them, ‘What are you doing for the game today?’ ‘What will the game look like in five years, 15 years, 25 years?’”³⁰

32. Ar 26 Mawrth 2023, cytunodd URC ar y newidiadau gyda 97 y cant o'r bleidlais.³¹ Bydd URC yn mynd ati'n awr i benodi Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol (INED) yn gadeirydd a recriwtio dau Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol newydd arall i'w Fwrdd o ddeuddeg, gan ddyblu cyfanswm y Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol i chwech. Ar ei newydd wedd, bydd pedwar aelod o'r Bwrdd yn dal i ddod o Gyngor URC sy'n cael ei ethol yn gyfan gwbl gan glybiau sy'n aelodau, gydag un ohonynt yn gadeirydd Bwrdd y Gêm Gymunedol. Bydd y ddwy sedd sy'n weddill ar y Bwrdd yn cael eu llenwi gan Brif Swyddog Gweithredol URC a rôl Cyfarwyddwr newydd ar gyfer rhywun sy'n gallu cefnogi a hyrwyddo gêm y menywod. Bydd pob newid yn digwydd yng nghydestun y dyhead cyffredinol i sicrhau bod o leiaf bum Cyfarwyddwr yn fenywod.

Ein barn ni

33. Mae'n annerbyniol ei bod wedi cymryd rhaglen ddogfen gan y BBC i Undeb Rygbi Cymru weithredu'n bendant i fynd i'r afael ag ymddygiad gwenwynig hirsefydlog o fewn y sefydliad. Mae corff amlwg o dystiolaeth sy'n tynnu sylw at gyfleoedd a gollwyd gan URC i weithredu ar ymddygiad a oedd yn peri pryder, neu i gydnabod a mynd i'r afael â phatrwm o'r ymddygiad hwn. Mae hyn yn

²⁹ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff.111](#)

³⁰ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff.142](#)

³¹ Undeb Rygbi Cymru: [WRU EGM result](#) - 26 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

cynnwys cwynion ffurfiol; URC yn ymrwmo i sawl cytundeb setlo mewn perthynas â honiadau o rywiaeth, hiliaeth a homoffobia dros sawl blwyddyn; yr adolygiad o gêm y menywod; ac ymddiswyddiad Amanda Blanc. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn awgrymu methiannau systemig yn niwylliant URC.

34. Mae'r ffaith na wnaeth yr uwch reolwyr nodi'r broblem na mynd i'r afael â hi yn fethiant llywodraethu difrifol. Yn anffodus, mae'r methiant hwn wedi arwain at niwed i'r unigolion dan sylw. Mae'n annerbyniol bod y bobl dan sylw wedi gorfod codi'r pryderon hyn yn gyhoeddus, gan ildio eu hawl i fod yn anhysbys, er mwyn iddynt gael eu cymryd o ddifrif ac i unrhyw gamau gael eu cymryd. Ein hargraff ni yw, pe na bai'r bobl hyn wedi siarad â'r wasg, na fyddai fawr ddim wedi newid yn URC.

35. Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan URC ers darlledu'r rhaglen ddogfen ar 23 Ionawr 2023. Roedd edifeirwch Ieuan Evans a Nigel Walker, a'u hawydd i roi newid ar waith, yn amlwg yn ein sesiwn dystiolaeth ar 2 Chwefror 2023. Mae'r ffaith bod yr aelodaeth, ar 26 Mawrth 2023, wedi pleidleisio o blaid gwneud llywodraethiant URC yn fwy modern ac amrywiol yn arwydd bod y sefydliad yn edrych tuag at y dyfodol ac yn dyst i waith caled Mr Evans a Mr Walker.

36. Mae'n ganmoladwy bod URC wedi gweithio gydag arbenigwyr allanol i sefydlu Adolygiad Annibynnol a'i fod wedi nodi y bydd yn derbyn ei argymhellion yn llawn. Croesewir y ffaith bod URC wedi agor ei hun i ddadansoddiad allanol yn y modd hwn. Prawf y dull hwn o weithredu fydd i ba raddau y bydd URC yn gweithredu newidiadau a argymhellir gan yr Adolygiad Annibynnol, sy'n rhywbeth y byddwn yn ei fonitro. Dylai URC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn yr hydref am y camau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn rhaglen ddogfen y BBC.

Argymhelliad 1. Pan fydd y Panel Adolygu Annibynnol yn cyhoeddi ei adroddiad, dylai URC fynd ati cyn gynted ag y bo'n ymarferol i gyhoeddi cynllun gweithredu yn dangos sut a phryd y bydd yn rhoi ei argymhellion ar waith. Dylai hefyd fynychu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol i esbonio ei gamau gweithredu presennol ac arfaethedig yn y maes hwn.

3. Llywodraeth Cymru

37. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid parhaus ar gyfer gweithgareddau craidd URC yn uniongyrchol. Mae Chwaraeon Cymru (y sefydliad cenedlaethol ar gyfer datblygu chwaraeon, sy'n dosbarthu arian Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol) yn darparu cyllid blynyddol i URC i gefnogi'r gêm gymunedol a datblygu gêm y menywod a merched (gweler adran 4 am ragor o fanylion am berthynas Chwaraeon Cymru ag URC).

38. Fodd bynnag, mae perthynas Llywodraeth Cymru ag URC yn rhychwantu nifer o feysydd, fel y byddech yn ei ddisgwyl gan randdeiliad o faint a phwysigrwydd diwylliannol URC. Mae natur y berthynas hon yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn ail-ariannu benthyciad cysylltiedig â COVID i URC, cysylltiadau hirsefydlog fel rhan o waith cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth Cymru yn lobïo URC yn unol â'i blaenoriaethau polisi. Manylir ar y berthynas hon isod. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 2 Chwefror 2023.³²

Y berthynas â'r URC

39. Ar 25 Ionawr 2023, ymatebodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon i gwestiwn amserol yn y Cyfarfod Llawn am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru ac URC ynghylch yr honiadau o ddiwylliant rhywiaethol a adroddwyd gan y BBC. Esboniodd, er gwaethaf annibyniaeth URC ar Lywodraeth Cymru, fod pwysigrwydd diwylliannol URC yn golygu bod angen iddo arddel "gwerthoedd y genedl hon":

"fel Llywodraeth, yn amlwg, nid ni sy'n rhedeg Undeb Rygbi Cymru. Nid ydym yn berchen ar Undeb Rygbi Cymru. Maent yn fusnes annibynnol, ac mae'n rhaid inni fod yn glir ynghylch ble y caiff y penderfyniadau ynglŷn â'r gêm yng Nghymru eu gwneud. Ac nid Llywodraeth Cymru sy'n gwneud y penderfyniadau hynny. Ond yr holl bwynt, a chredaf mai'r pwynt roeddech chi'n ei wneud, Alun, yw bod rygbi'r undeb, a rygbi'r undeb rhyngwladol yn arbennig, mor bwysig i ddiwylliant

³² Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, eitem 5](#)

y genedl hon fel bod yn rhaid inni gael sefydliad sy'n arddel gwerthoedd y genedl hon hefyd."³³

40. Nododd y berthynas ariannol rhwng y ddau sefydliad, a'r cyfrifoldeb moesol yr oedd hyn yn ei beri i URC:

"Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw ei bod yn amlwg fod gan Lywodraeth Cymru berthynas ariannol hirsefydlog ag Undeb Rygbi Cymru, sy'n seiliedig, yn y bôn, ar hyrwyddo amcanion cyhoeddus ac economaidd. Ac fel un o'n prif bartneriaid, mae gennym ddisgwyliadau clir iawn ynglŷn â sut mae sefydliad yn edrych ac yn ymddwyn er mwyn cael arian cyhoeddus, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei wyllo'n ofalus iawn yn y dyfodol."³⁴

41. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cafodd URC £816,000 gan Chwaraeon Cymru, gyda £644,000 ohono gan Lywodraeth Cymru (a'r gweddill gan y Loteri Genedlaethol).

42. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae URC wedi derbyn rhywfaint o gyllid COVID yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (e.e. £5.4 miliwn o'r Gronfa Diogelu Chwaraeon Gwylwyr) ac, ar hyn o bryd, mae'n ad-dalu benthyciad o £18 miliwn gan Lywodraeth Cymru³⁵ (ailstrwythuro benthyciadau eraill yr oedd URC wedi'u cael yn ystod y pandemig), a gytunwyd ym mis Mawrth 2022.

43. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac URC yn rhychwantu nifer o feysydd gwaith:

"we have a connection via Sport Wales on the funding side, on the annual revenue funding side, but we also have connections in other bits of Welsh Government work—so, specifically, Visit Wales and Event Wales, where we have a relationship with them and have had for many, many years, which has been, largely, a very positive relationship."³⁶

³³ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 192](#)

³⁴ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 203](#)

³⁵ Undeb Rygbi Cymru: [Major refinace agreement reached](#) - 22 Mawrth 2022 (Saesneg yn unig)

³⁶ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 305](#)

Cyd-destun polisi Llywodraeth Cymru

44. Mae'r Contract Economaidd³⁷ yn gytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r busnesau y mae'n eu cefnogi. Mae'n "ymrwymiad i fuddsoddi arian cyhoeddus a blaenoriaethu anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru wrth adeiladu economi lesiant gref a ffyniannus". Nid yw'n gontract y gellir ei orfodi'n gyfreithiol.

45. Drwy'r Contract Economaidd, mae busnesau'n dangos y cyfraniad y byddant yn ei wneud at yr egwyddorion hyn ac mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r cymorth anariannol y bydd yn ei roi yn gyfnewid am hynny. Un o'r meysydd dan sylw yw "gwaith teg", sy'n cynnwys "mynd i'r afael ag anghydraddoldeb".

46. Ar 2 Chwefror 2023, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

*"In terms of an economic contract, there is one in place between the Welsh Government and the WRU as a grant recipient, and that's a pledge to work together on issues such as sustainability, fair work, health and well-being et cetera."*³⁸

47. Mae gan Lywodraeth Cymru Strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n cynnwys y nod i "wneud Cymru yn wlad sy'n saffach nag unrhyw le arall i fod yn fenyw". Mae'r strategaeth hon yn hyrwyddo dull "cymdeithas gyfan", ac yn dweud bod mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn "fusnes i bawb":

*"Mae'n gyfrifoldeb ar yr unigolyn, y teulu, y gymuned a'r sefydliadau, y sectorau, y llywodraeth a'r genedl gyfan."*³⁹

48. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn "cryfhau'r" strategaeth i "gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref".⁴⁰

49. Ar 11 Ebrill 2023, ysgrifennodd y Gweinidog dros yr Economi at Gyfarwyddwr CBI Cymru yn dilyn honiadau o gamymddwyn yn y CBI, gan gynnwys aflonyddu

³⁷ Llywodraeth Cymru: [Y Contract Economaidd](#)

³⁸ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 334](#)

³⁹ Llywodraeth Cymru: [Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026](#) - 24 Mai 2022

⁴⁰ Llywodraeth Cymru: [Y Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad](#) - 7 Rhagfyr 2021 [PDF 198KB]

rhywiol a threisio. Dywedodd y Gweinidog wrth y CBI ei fod yn atal pob cysylltiad â'r sefydliad am y tro, er bod y llythyr yn nodi:

“Officials at Deputy Director level will continue to engage with the CBI in circumstances where other social partners and/or stakeholders are present. However, this engagement will also be contingent upon assurances regarding the handling of the reported allegations and the CBI’s commitment to taking swift and appropriate action pending the outcome of the independent investigation that I understand is underway.”⁴¹

Gwybodaeth am yr honiadau

50. Ar 9 Mai 2022, ysgrifennodd yr Aelod Seneddol Tonia Antoniazzi at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon yn codi pryderon am ddiwylliant dwfn o rywiaeth yn URC⁴². Roedd pwyntiau allweddol yn y llythyr yn cynnwys:

- *“There is a deep seated culture of sexism within the WRU which I am afraid will soon become public and that will paint the Welsh Government and those that fund the WRU such as the sponsors and Sport Wales in a negative light. I am concerned that the WRU are not held to account for their behaviour and for their actions as their governance system is archaic and this has resulted in problems within the institution not being dealt with properly and transparently.”*
- *“I have been unable to speak to and contact the other women myself, but I am very aware of someone in the media having built a comprehensive list of women who are all prepared to go public. From within the WRU, I have spoken to 3 people who have shared my concerns and more concerningly confirmed what I already knew about the organisation.”*

⁴¹ [Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Weinidog yr Economi: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir \(Dirymu a Diwygio\) – 8 Chwefror 2023](#) [PDF 101KB]

⁴² [Gohebiaeth gan Tonia Antoniazzi AS at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip – 9 Mai 2022](#) [PDF 42KB] (Saesneg yn unig)

- *“This is not just a case of one or two people having a spat with the WRU, this is a huge problem on the scale of racism in Yorkshire cricket. I am asking you to speak to these individuals in confidence in order to collaborate the concerns I have raised in this email”.*

51. Ymatebodd y Dirprwy Weinidog i'r Aelod Seneddol Tonia Antoniazzi drwy llythyr yn ei hysbysu nad oedd wedi cael manylion penodol am unrhyw achosion ac yn nodi y dylai unrhyw unigolyn neu grwpiau sy'n dymuno codi cwynion neu bryderon ddilyn prosesau cwyno neu chwythu'r chwiban y sefydliad yn y lle cyntaf, cyn penderfynu a ddylid uwchgyfeirio materion ymhellach ai peidio.⁴³

52. Bu'r Dirprwy Weinidog yn trafod llythyr Tonia Antoniazzi gyda'r Pwyllgor ar 2 Chwefror 2023. Dywedodd:

“Primarily, that letter was setting out concerns about the women’s game. Much of those concerns, of course, were already in the public domain by that time. Certainly, before that letter from Tonia, I’d been having conversations with the WRU about the women’s game and about the report and about where we needed to go with that. She set that out in her letter. She also set out her concerns about the resignation of Amanda Blanc from the WRU executive board, and she also set out concerns about anonymous complaints that she was aware of, again, some of which were in the public domain. I think the anonymous complaints were in the Mail Online around about March of last year, which was about the employment tribunal case, which we subsequently found out more about in the BBC programme. But, that was in the public domain as well, as was the Amanda Blanc resignation. She referred to some anonymous complainants who had other concerns about issues of sexism and misogyny.

⁴³ [Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip at Tonia Antoniazzi AS - 24 Mai 2022](#) [PDF 148KB] (Saesneg yn unig)

So, in general terms, that was the extent of my knowledge. I was aware that there were concerns around sexism and misogyny.”⁴⁴

53. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod pryderon cyffredinol am rywiaeth a chasineb at fenywod yn URC yn hysbys i lawer yn URC ers degawdau:

“The letter that I had gave me no detail; it just talked in general terms about sexism and misogyny, which I think it had been widely known within the WRU, probably for many, many years, probably going back 20 years, that that had been something that was of concern. I heard the previous evidence session where you talked about a Government review back in 2014 when some of these things were raised. So, I don't think any of that was new. The decisive action did come after the BBC programme because that was the first time that we had heard the extent and the detail of the issues. That is not to say that, at any point during that previous 12-month period, I had not been having discussions with the WRU about a whole range of these issues; in fact, I had.”⁴⁵

Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

54. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu i'r Pwyllgor linell amser o ryngweithiadau'r Dirprwy Weinidog ag URC rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2023.⁴⁶ Mae'r llinell amser hon yn dangos bod y Dirprwy Weinidog a'i swyddogion wedi cael nifer o gyfarfodydd gydag URC dros y cyfnod hwn, gan gynnwys ar ôl iddi dderbyn llythyr Tonia Antoniazzi. Nid yw'n dangos bod y Dirprwy Weinidog wedi codi'r pryderon a amlinellwyd gan yr Aelod Seneddol Tonia Antoniazzi gydag URC. Mae'r llinell amser hon yn dangos mai ym mis Ionawr 2023 y cafwyd y cyfarfod nesaf gydag URC ar ôl derbyn y llythyr ym mis Mai 2022, a bod y Dirprwy Weinidog wedi cyfarfod:

⁴⁴ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraff 243](#)

⁴⁵ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 2 Chwefror 2023, paragraffau 243 a 244](#)

⁴⁶ [Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip - 3 Mawrth 2023](#) [PDF 289KB]

"...â cyn-Brif Weithredwr a Chadeirydd URC a etholwyd yn ddiweddar am drafodaeth eang ar faterion megis y dull llywodraethu a'r adolygiad, cyllid, profiad diwrnod gêm, polisi trawsryweddol URC, model buddsoddi Chwaraeon Cymru, buddsoddi mewn rygbi merched, ac ailbrisiad Ardrethi Busnes."

55. Yn ôl adroddiad gan y BBC,⁴⁷ ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog, a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, at Undeb Rygbi Cymru ym mis Hydref 2022 yn mynegi pryder ei fod wedi gwahardd menywod trawsrywiol rhag cystadlu mewn gemau merched yn unig. Ceir rhagor o fanylion mewn datganiad Rhyddid Gwybodaeth dyddiedig 8 Mawrth 2023.⁴⁸

56. Ers i raglen ddogfen y BBC gael ei darlledu, mae Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon wedi cyfarfod ag URC i drafod yr ymateb i'r materion a godwyd gan raglen ddogfen y BBC. Dywedodd wrth y Cyfarfod Llawn ar 25 Ionawr 2023:

*"Yn y sgwrs a gefais gyda'r prif weithredwr y bore yma, nododd nifer o gamau gweithredu y mae Undeb Rygbi Cymru eisoes wedi'u rhoi ar waith. Dywedais wrtho'n blwmp ac yn blaen fy mod yn teimlo bod angen i hynny fod yn llawer mwy eglur, fod angen iddo ddweud yn gyhoeddus beth mae Undeb Rygbi Cymru wedi'i wneud i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn, yn anad dim yng ngoleuni'r adroddiad ar gêm y menywod."*⁴⁹

57. Roedd y Dirprwy Weinidog yn glir bod natur perthynas Llywodraeth Cymru ag URC yn golygu bod cyfyngiadau ar y camau y gallai eu cymryd, a dywedodd wrth y Pwyllgor:

"Even since the BBC programme on Monday, there have been constraints on what I've been able to do. I've only been able to set out to the WRU—and I've done that very forcefully—what my

⁴⁷ BBC News: ['Concern' over WRU trans women ban in female-only games](#) - 2 Mawrth 2023 (Saesneg yn unig)

⁴⁸ Llywodraeth Cymru: [Datganiad Rhyddid Gwybodaeth 17082&17109: Undeb Rygbi Cymru](#) - 13 Mawrth 2023

⁴⁹ Cofnod y Trafodion: [Y Cyfarfod Llawn - 25 Ionawr 2023, paragraff 198](#)

expectations are. But, at the end of the day, it is for the WRU to make the changes and to implement those changes."⁵⁰

58. Ar 27 Ionawr 2023, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at URC mewn ymateb i'r honiadau yn rhaglen ddogfen y BBC i nodi:

*"...our expectations as you develop what must be an urgent, transparent and comprehensive response to these incredibly serious challenges and allegations."*⁵¹

59. Dywedodd:

*"As the Deputy Minister for Sport, I am taking the matters raised in the BBC documentary extremely seriously and will continue to press in the strongest possible way for immediate and transformative reform in the WRU, to restore trust in an organisation that has a truly unique contribution to make."*⁵²

60. Nododd gyfres o gysylltiadau ag URC ers darlledu'r rhaglen ddogfen:

*"I am grateful for the way you have communicated with me in recent days and would be grateful for a further meeting with you next week."*⁵³

A oes bwlch ym maes llywodraethu chwaraeon?

61. Pwysleisiodd y Dirprwy Weinidog a Chwaraeon Cymru (gweler isod), mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, fod cyfyngiadau i'r graddau y gallent fynnu newid gan URC. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

*"one of the things that we have to consider is: is there a gap? Is there a gap beyond the national governing bodies—"*⁵⁴

⁵⁰ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Chwefror 2023, paragraff 251](#)

⁵¹ Llywodraeth Cymru: [Datganiad Rhyddid Gwybodaeth 17148: Undeb Rygbi Cymru](#) – 13 Mawrth 2023

⁵² Llywodraeth Cymru: [Datganiad Rhyddid Gwybodaeth 17148: Undeb Rygbi Cymru](#) – 13 Mawrth 2023

⁵³ Llywodraeth Cymru: [Datganiad Rhyddid Gwybodaeth 17148: Undeb Rygbi Cymru](#) – 13 Mawrth 2023

⁵⁴ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Chwefror 2023, paragraff 408](#)

62. Mae Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi amlinellu cynlluniau i gyflwyno rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer pêl-droed proffesiynol yng nghynghreiriau Lloegr yn ei phapur gwyn ar lywodraethu pêl-droed.⁵⁵

Ein barn ni

63. Mae'r Dirprwy Weinidog yn gywir i ddweud bod cyfyngiadau ar y graddau y gall gyfarwyddo URC, sy'n sefydliad annibynnol. Nodwn hefyd y ffaith bod ymyriadau'r Dirprwy Weinidog ers darlledu'r rhaglen ddogfen yn dangos yr effaith sylweddol y gall camau gweithredu anffurfiol Llywodraeth Cymru ei chael yn y maes hwn.

64. Nid oedd y Pwyllgor yn gytûn ynghylch a ddylai'r Dirprwy Weinidog fod wedi codi pryderon yn gynharach gydag URC ynghylch yr honiadau (yn y wasg, ac yn y llythyr gan yr Aelod Seneddol Tonia Antoniazzi) fod ganddo broblem ddiwylliannol gyda menywod.

65. Mae rhai aelodau'n meddwl y dylai fod wedi gwneud hynny, ac y byddai gwneud hynny wedi anfon neges bod rhywiaeth yn annerbyniol, a bod perthynas gadarnhaol â Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar URC yn mynd i'r afael â'r mater. Byddai gweithredu felly yn debyg i'r camau a gymerwyd gan Weinidog yr Economi yn ddiweddar mewn ymateb i honiadau yn erbyn y CBI. Byddai'r aelodau hyn yn tynnu sylw at y ffaith i'r Dirprwy Weinidog, ar ôl cael ei rhybuddio gan yr Aelod Seneddol Tonia Antoniazzi am rywiaeth endemig o fewn URC, ysgrifennu at URC ynglŷn â'i bolisi trawsryweddol, ond nad oedd (yn ôl y llinell amser digwyddiadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru) wedi codi'r mater o rywiaeth. Byddent hefyd yn nodi, pe bai'r Dirprwy Weinidog wedi gweithredu yn gynharach i fynd i'r afael â rhywiaeth o fewn URC, y byddai hynny wedi bod yn gyson â strategaeth trais yn erbyn menywod a Chontract Economaidd Llywodraeth Cymru, sydd â'r bwriad o hyrwyddo gwaith teg.

66. Mae Aelodau eraill yn nodi diffyg pŵer ffurfiol Llywodraeth Cymru dros URC, ac nid ydynt yn cytuno y dylai'r Dirprwy Weinidog fod wedi codi pryderon gydag URC cyn rhaglen ddogfen y BBC. Yn groes i'r farn a fynegir ym mharagraff 66, mae Aelodau'n anghytuno â'r gymhariaeth ag ymyriad y Gweinidog â'r CBI gan fod y rhain yn honiadau penodol yn erbyn unigolyn a enwir. Roedd yr honiadau a godwyd yn y llythyr gan Tonia Antoniazzi, yr Aelod Seneddol, at y Dirprwy

⁵⁵ Llywodraeth Cymru: [A sustainable future - reforming club football governance](#) - 23 Chwefror 2023 (Saesneg yn unig)

Weinidog yn amhenodol ac yn ddiennw ac felly nid oeddent yn destun ymyrraeth uniongyrchol. O'r achosion nad oedd yn ddiennw, roedd un achos yn destun achos cyfreithiol. Nododd yr Aelodau hefyd na chododd unrhyw Aelod o'r Senedd o unrhyw blaid unrhyw faterion cyn rhaglen ddogfen y BBC.

67. Mae strategaeth Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Llywodraeth Cymru, a'r Contract Economaidd, yn darparu cyd-destun polisi lle dylai Llywodraeth Cymru annog ei phartneriaid, megis URC, i fynd i'r afael â rhywiaeth. Felly, dylai Llywodraeth Cymru ystyried ei chefnogaeth i URC yn y dyfodol yng ngoleuni ei ymdrechion i fynd i'r afael â rhywiaeth.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw gymorth ariannol y mae'n ei roi i URC yn y dyfodol yn gydnaws â phob agwedd ar y strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a'r Contract Economaidd.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd pryderon ynghylch diwylliant sefydliad yn cael eu hystyried ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid rhoi cymorth ariannol i'r sefydliad hwnnw.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrotocolau ar gyfer ymateb i bryderon a godir gyda Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion a gweision sifil am ymddygiad amhriodol mewn sefydliadau yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar ganlyniad yr adolygiad hwn a dylai nodi pa gamau y bydd yn eu cymryd o ganlyniad.

4. Chwaraeon Cymru

68. Chwaraeon Cymru yw'r corff a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu chwaraeon. Y corff hwn yw'r prif gynghorydd ar chwaraeon i Lywodraeth Cymru, ac mae hefyd wedi bod yn cynghori URC ar sefydlu ei Adolygiad Annibynnol. Mae Chwaraeon Cymru yn dosbarthu cyllid ar gyfer chwaraeon, gan gynnwys cyllid blynyddol i gyrff llywodraethu cenedlaethol. Ym mlwyddyn ariannol 2021/22, roedd Chwaraeon Cymru wedi rhoi £816,000 i URC, sydd ychydig yn llai nag 1 y cant o drosiant blynyddol yr Undeb. Nid yw'r cyllid hwn ar gyfer y gêm broffesiynol, ond i gefnogi'r gêm gymunedol a datblygu gêm y menywod a merched.

69. Mae URC hefyd yn cael cyllid yn achlysurol gan Chwaraeon Cymru drwy ei gynlluniau ariannu amrywiol. Er enghraifft, derbyniodd URC gyllid cyfalaf yn ddiweddar ar gyfer prosiect cynaliadwyedd. Mae Adroddiad Blynyddol 2022 Undeb Rygbi Cymru yn nodi:

"We have also continued to support clubs to access external funding and for 2021/22 the amount of funding accessed through the Sport Wales Be Active Wales Fund (BAWF) since the new team have been in post is c.£319k."⁵⁶

70. Esboniodd Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru, Brian Davies, sut y mae'r sefydliad yn monitro defnydd URC o gyllid Chwaraeon Cymru:

"There are multiple ways we get the insight that we need to know whether the public funding has been used appropriately. There's obviously the finance reviews that we can instigate, and two of those were instigated with the WRU in February 2021 and March 2022, and those financial reviews were passed. The governance review that was instigated with AlphaValue was another method that we had to check on how the WRU was operating within the realms of the areas that we have control over. And I think those methods, together with other methods of reporting we asked the WRU to give us with regard to the funding, were pretty sufficient. I don't think we can be accused of not checking on how the WRU were using the money we were investing in them.

It's effectively less than 1 per cent of their total turnover, the public investment into the WRU, but we do ask quite a bit of reporting back in return for that investment. Obviously, for other governing bodies, that's a significant proportion of their income; for the WRU, it isn't. But it was specific: it was for the hub programme and the women and girls' pathway development. So, we do have reports from the WRU about how the money was used and we have wider financial reports about the health of the WRU and its processes, and we also had the governance review from AlphaValue, which identified it needed to make improvements, and we asked for a plan."⁵⁷

⁵⁶ Undeb Rygbi Cymru: [Adroddiad Blyneddol 2022](#), tudalen 40 [PDF 7.5MB] (Saesneg yn unig)

⁵⁷ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraffau 130 a 131](#)

Gwybodaeth am honiadau

71. Esboniodd Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru, Brian Davies, faint oedd ef yn ei wybod am yr honiadau yn y rhaglen ddogfen cyn ei darlledu:

*"Nothing formal. We were aware of some things that were in the public domain, but, in terms of the specific allegations that were aired, no, nothing had been raised directly with us."*⁵⁸

72. Esboniodd y Farwnes Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru:

*"After the programme was aired, I asked Brian and all the team, and also asked to go back and check with former employees or people who have been involved with the WRU over the year, what did Sport Wales know. The answer was 'nothing'. If you're talking about culture within governing bodies and culture within sport, then there we are aware that there are lots of parts of the sporting world where the culture isn't great. In terms of the really specific allegations, absolutely not."*⁵⁹

73. Dywedodd Brian Davies nad oedd ond yn ymwybodol o un Cytundeb Peidio â Datgelu a oedd yn cael ei ddefnyddio gan URC mewn perthynas â'r honiadau hyn.

74. Esboniodd Brian Davies fod Chwaraeon Cymru yn gyfyngedig o ran y graddau y gallai ymchwilio i honiadau o ymddygiad amhriodol mewn cyrff llywodraethu chwaraeon:

"We're the agency responsible for promoting and developing sport and physical activity in Wales. We're not an investigatory body. We're not resourced that way. We're not established that way. We have no legislative power. We do have duties. As an organisation, we're bound by certain legal duties. But, in terms of the sector, we don't really have that kind of responsibility. Whether we should is another matter. So, if someone does raise

⁵⁸ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 42](#)

⁵⁹ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 89](#)

something informally with us, there is a limit to what we can do.”⁶⁰

75. Esboniodd y Farwnes Grey-Thompson y cyfyngiadau ar sut y gall Chwaraeon Cymru ymyrryd mewn cyrff rheoli chwaraeon:

“We’re not a regulator. Our ability to step in on other areas is challenging. There’s a big discussion going on at the moment in British sport about regulation, whether there should be a football regulator. I’ve talked about an ombudsman who has that role, who can actually step in, audit and challenge.”⁶¹

76. Ymhelaethodd ar ei hawgrym o gael rheoleiddiwr chwaraeon yn ddiweddarach yn y sesiwn:

“One of the reasons I recommended an ombudsman was not because of some great big power grab, or wanting to invent this huge organisation—it was actually to help governing bodies look at their internal policy, process, culture and think about how they could do things in a different and a more modern way. Different governing bodies have embraced it and struggled with it—capacity, capability; there’s all sorts of things with it.”⁶²

77. Nododd Mr Davies yr heriau ynghlwm wrth y cynnig hwn:

“It would be really interesting to see how that could be done, because you start treading on the toes of international federations here, who quite often throw in the fact that there should be no political interference in their sport.”⁶³

78. Gofynnwyd i Mr Davies pam nad oedd Chwaraeon Cymru wedi archwilio'r rhesymau dros ymddiswyddiad Amanda Blanc, ac esboniodd:

⁶⁰ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 47](#)

⁶¹ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 138](#)

⁶² Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 166](#)

⁶³ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 190](#)

“Amanda Blanc was chair of the professional rugby board, which is obviously, by definition, the professional aspect of the sport. We don't have any dealings with the WRU in respect of professional sport. Ours is all about grass roots and the development of the women's game and pathway, so that's where the public investment goes into the WRU. We have no remit on the professional side of the game, and we certainly can't invest lottery funds in anything to do with the professional side of the game. So, we might have been interested, but, as far as I could tell at the time, Amanda wasn't saying why she left. She made no public statement.”⁶⁴

Chwaraeon Cymru a llywodraethu chwaraeon

79. Mae Chwaraeon Cymru wedi mynd ati, gyda'r sector, i ddatblygu Fframwaith llywodraethu ac arwain.⁶⁵ Mae'n cynnwys saith egwyddor ac ymddygiad allweddol y dylai byrddau eu defnyddio i helpu i arwain sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys:

*“Egwyddor 1: DIDWYLLEDD – GWEITHREDU DROS DDYFODOL
CHWARAEON, HAMDDEN, GWEITHGAREDD NEU FAES*

Y bwrdd yw'r corff sy'n gwneud y penderfyniadau yn y pen draw mewn sefydliad a rhaid iddo arwain drwy esiampl. Dylai gadw at y safonau didwylledd uchaf a dangos esiampl o hynny.

Mae'n bwysig sefydlu rhai sylfeini er mwyn gwarchod enw da a chyfreithlondeb y sefydliad a diogelu pob cyfranogwr. Hefyd rhaid i'r bwrdd ddatblygu a sbarduno twf y sefydliad, gan ddiogelu ei lwyddiant parhaus.

Egwyddor 4: BWRDD CYTBWYS, CYNHWYSOL A MEDRUS

Dylai'r bwrdd gynnwys unigolion sydd â'r cydbwysedd priodol o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i ddiwallu anghenion y sefydliad a chynrychioli amrywiaeth y gymuned mae'n ei gwasanaethu a'r gymuned y bydd yn ei gwasanaethu yn y

⁶⁴ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 54](#)

⁶⁵ Chwaraeon Cymru: [Fframwaith Llywodraethu ac Arwain](#)

dyfodol. Dylai'r sefydliad fod â pholisïau recriwtio priodol yn eu lle er mwyn galluogi hyn."

80. Yn 2018, cytunodd Bwrdd Chwaraeon Cymru ar amcan polisi i holl Gyrrff Rheoli Cenedlaethol Chwaraeon a Phartneriaid Cenedlaethol sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau ar eu Byrddau.⁶⁶

81. Mae Adroddiad Blynyddol 2022 Undeb Rygbi Cymru yn nodi:

*"In March 2016, the Board committed to support the Sport Wales Governance and Leadership Framework for Wales (the 'Framework'). The Board continues to consider how best to implement the Principles and Behaviours set out in the Framework in a way that is most suitable for the Group and how it can maintain and improve good governance and leadership within the Group."*⁶⁷

82. Mae gan Chwaraeon Cymru hefyd Fframwaith Gallu, sydd â dau nod allweddol:

- sicrhau bod Chwaraeon Cymru yn buddsoddi arian cyhoeddus yn briodol a bod ganddo hyder yn y sefydliadau mae'n gweithio â hwy, a
- cefnogi gwelliant parhaus sefydliadau partner fel eu bod wedi paratoi yn y ffordd orau i gyflawni eu potensial.⁶⁸

83. Mae'r cyfarwyddyd Fframwaith Gallu yn esbonio:

*"Mae'r gofynion hanfodol ac isafswm yn ategu'r Fframwaith Llywodraethu ac Arwain ar gyfer Cymru (GLFW-2019) ar ei newydd wedd. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at sefydliadau sy'n cael eu rhedeg a'u llywodraethu'n dda, gyda Byrddau cytbwys, medrus a chynhwysol, ers i'r GLFW ddod i rym."*⁶⁹

⁶⁶ Chwaraeon Cymru: [Amrywiaeth Byrddau](#)

⁶⁷ Undeb Rygbi Cymru: [Adroddiad Blynyddol 2022](#), tudalen 118 [PDF 7.5MB] (Saesneg yn unig)

⁶⁸ Chwaraeon Cymru: [Cyfarwyddyd Fframwaith Gallu](#) [PDF 2.3MB] (Saesneg yn unig)

⁶⁹ Chwaraeon Cymru: [Cyfarwyddyd Fframwaith Gallu](#), tudalen 3 [PDF 2.3MB] (Saesneg yn unig)

84. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Chwefror 2023, esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru sut yr oedd Fframwaith Gallu Chwaraeon Cymru wedi sbarduno adolygiad llywodraethu URC:

“The annual funding WRU receives from Sport Wales, underpinning all that is the capability framework, and Sport Wales has the responsibility to ensure that public funding is invested appropriately. And that’s around key governance areas, around funding, around board composition et cetera. And the WRU completed an assessment back in 2022, and that triggered the governance review that was spoken about earlier. So, that just shows the process linked from funding through to governance and continuing improvement.”⁷⁰

85. Ymhelaethodd Brian Davies ar rôl Chwaraeon Cymru o ran ysgogi gwelliannau yn nhrefniadau llywodraethu URC:

“Where we do have an influence is on hard governance, and we were pushing the WRU to change its constitution to bring in an independent chair, to do some of the changes that the governance review that AlphaValue had conducted in 2022, and to be implemented. When things like that are implemented, hopefully those kinds of incidents or areas that Amanda Blanc might have had concerns over are fewer and far between, or are dealt with more appropriately, because the hard governance structure is in place to deal with it properly.”⁷¹

86. Esboniodd yr anawsterau a wynebodd Chwaraeon Cymru wrth geisio ysgogi newid diwylliannol:

“The hard governance [...] is really important and is something that we are comfortable with trying to enact with partners. The culture piece we’re not comfortable with because it’s difficult, uncertain and complex. But with Tanni and with the will of the

⁷⁰ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Chwefror 2023, paragraff 308](#)

⁷¹ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 56](#)

other bodies in the UK, maybe we can make additions to that capability framework that involves culture in its wider sense."⁷²

87. Yn dilyn methiant URC i gytuno ar newidiadau llywodraethu yn ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Hydref 2022, esboniodd Mr Davies:

*"We wrote a letter to the WRU asking what their implementation plan was now for the governance review changes that had been recommended by AlphaValue in its governance review that was commissioned by the WRU. We gave them until the end of next month to give us that implementation plan. Without it, there was no public funding going to be made available. Obviously, a few things have happened since we wrote that letter, and therefore at the moment the WRU get no money publicly from Sport Wales."*⁷³

88. Roedd Mr Davies yn gobeithio y gallai'r honiadau am URC ysgogi gwelliannau mewn llywodraethu ar draws chwaraeon:

*"The optimist in me sees this as a potential accelerator for the hard governance changes that some governing bodies still need to make, including the WRU."*⁷⁴

Perthynas Chwaraeon Cymru â Llywodraeth Cymru

89. Chwaraeon Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ar chwaraeon, ac mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ei blaenoriaethau strategol. Dyrannwyd £31 miliwn iddo yng nghyllideb ddrafft 2022/23, sy'n debyg iawn i'r swm a ddyrannwyd iddo yng nghyllideb y flwyddyn flaenorol. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn dosbarthu grantiau'r Loteri Genedlaethol (£13 miliwn yn 2019/20) i chwaraeon elît a chwaraeon ar lawr gwlad.

⁷² Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 174](#)

⁷³ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 58](#)

⁷⁴ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 165](#)

90. Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru yn unol â llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru. Mae llythyr cylch gwaith 2018-21 yn cynnwys yr amcan canlynol:

“Bydd Chwaraeon Cymru yn sefydliad a fydd yn esiampl i eraill ac yn ysgogi diwylliant sy'n hyrwyddo llesiant, cydraddoldeb a chynaliadwyedd.”⁷⁵

A'r canlyniad canlynol:

“System sy'n cyflawni llwyddiannau parhaus mewn chwaraeon elît, yn ogystal â sicrhau diogelwch, llesiant a lles y bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.”⁷⁶

91. Dywed llythyr cylch gwaith 2021-26 y dylai nodau a rennir gan y ddau sefydliad gynnwys “mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol”. Dywed hefyd yr hoffai'r Dirprwy Weinidog i Chwaraeon Cymru “flaenoriaethu amrywiaeth, cynhwysiant a chydaddoldeb ledled y sector er mwyn sicrhau ein bod yn deall ac yn goresgyn rhwystrau i gyfranogiad”.⁷⁷

92. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad annibynnol ar Chwaraeon Cymru, a ddywedodd:

“Y neges glir a chyson a roddodd y rhanddeiliaid i dîm yr adolygiad oedd bod Chwaraeon Cymru yn sefydliad sydd ar groesffordd o ran ei gyfeiriad strategol a'r rôl y mae'n ei chwarae o ran cyflawni'r nodau llesiant a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n parhau'n eiriolwr cryf iawn dros chwaraeon ac mae, yn briodol ddigon, yn cael y clod am gryfhau'r ffordd y mae Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol yn cael eu llywodraethu a'u harwain. Mae'r partneriaid hefyd yn cydnabod ac yn canmol y cyfraniad y mae tîm elît Chwaraeon Cymru wedi'i wneud i lwyddiant athletwyr o Gymru. Wedi dweud hynny, gan fod mwy a mwy o sylw'n cael ei roi i'r cyfraniad y gall chwaraeon ei wneud i flaenoriaethau polisi ehangach, a hynny mewn hinsawdd lle mae cyllidebau gwariant yn y sector

⁷⁵ Llywodraeth Cymru: [Llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru: 2018 i 2021](#) - 9 Chwefror 2018

⁷⁶ Llywodraeth Cymru: [Llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru: 2018 i 2021](#) - 9 Chwefror 2018

⁷⁷ Llywodraeth Cymru: [Llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru: 2021 i 2026](#) - 22 Rhagfyr 2021

cyhoeddus yn crebachu, mae gofyn i Chwaraeon Cymru arwain y gwaith o weddnewid y sector.”⁷⁸

93. Argymhellodd y dylai Chwaraeon Cymru:

“...ystyried sut orau i reoli’i berthynas â’r Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol ac awdurdodau lleol fel bod lefel y ffrwyno a’r herio’n gymesur ac yn gytbwys â rhoi cyngor arbenigol ac ychwanegu gwerth.”⁷⁹

94. Mae llythyr cylch gwaith 2018-21 gan y Dirprwy Weinidog yn dweud:

“Yn ystod cyfnod y Llythyr Cylch Gwaith hwn, rwy’n disgwyl i argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Chwaraeon Cymru (Gorffennaf 2017) gael eu rhoi ar waith yn llawn.”⁸⁰

95. Esboniodd Mr Davies yr amwysedd yn y Llythyr Cylch Gwaith. O ran y nodau cydraddoldeb, dywedodd:

“We take that as investing in the appropriate areas of the sport to improve access for all intersectional issues, not so much maybe the other areas that are achieving focus here, which are the fact that a governing body has a culture that promotes equality and stuff like that. So, it depends on interpretation.”⁸¹

Camau gweithredu Chwaraeon Cymru

96. Yn dilyn darlledu rhaglen ddogfen y BBC, rhoddodd Chwaraeon Cymru gyngor i URC ar benodi corff annibynnol i arwain adolygiad annibynnol. Comisiynodd URC Sport Resolutions ar gyngor Chwaraeon Cymru. Sefydliad annibynnol, nid-er-elw yn y DU yw Sport Resolutions, sy’n darparu gwasanaethau arbenigol i ddatrys ac ymchwilio i anghydfodau ym maes chwaraeon.

⁷⁸ Llywodraeth Cymru: [Adolygiad o Chwaraeon Cymru: Adroddiad Annibynnol](#) – Mehefin 2017 (PDF 757KB)

⁷⁹ Llywodraeth Cymru: [Adolygiad o Chwaraeon Cymru: Adroddiad Annibynnol](#) – Mehefin 2017 (PDF 757KB)

⁸⁰ Llywodraeth Cymru: [Llythyr cylch gwaith Chwaraeon Cymru: 2018 i 2021](#) – 9 Chwefror 2018

⁸¹ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 203](#)

97. Esboniodd Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru, Brian Davies, rôl barhaus Chwaraeon Cymru yn Adolygiad Annibynnol URC:

“So, the independent panel is exactly that—it’s an independent panel that has the terms of reference agreed, and it will operate now under the auspices of Dame Anne Rafferty. But there is a commissioning advisory group. So, the panel has been commissioned by the WRU—someone has to commission it, so, the WRU will be covering the costs, and therefore are the commissioning party. But there is an advisory group, consisting of a representative of the Welsh Rugby Union, a representative of Sport Wales, and a further independent person, and that’s the commissioning advisory group. It effectively sits there to help the panel if it requests it. It is asking for monthly updates from the panel, but its role is basically to check on progress and that everything the panel wants and needs is being received.”⁸²

98. Ymgynghorir hefyd â'r Grŵp Cynghori ar Gomisiynu os yw'r Cadeirydd am newid cylch gorchwyl yr adolygiad.

99. Nododd Brian Davies y gallai argymhellion yr adolygiad ganolbwyntio ar newidiadau meddal yn URC:

“What the WRU are currently proposing is some hard governance changes, which are really very welcome and needed, and have been needed for a while. But the soft changes are more difficult, and that’s maybe where the panel’s recommendations will be focused. I don’t know if that makes sense—hard changes: the rules; soft changes: how things are implemented, what the culture within the organisation looks like and how that can be improved or monitored or regulated.”⁸³

⁸² Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 17](#)

⁸³ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 15 Chwefror 2023, paragraff 35](#)

Ein barn ni

100. Mae swyddogion Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfraniad defnyddiol ers darlledu'r rhaglen ddogfen, gan ddod ag URC a Sport Resolutions at ei gilydd i sefydlu'r Panel Annibynnol. Mae'n galonogol hefyd fod y diwygiadau llywodraethu y mae Chwaraeon Cymru wedi'u hargymell wedi'u cymeradwyo gan URC yn ei Gyfarfod Cyffredinol Eithriadol ym mis Mawrth 2023.

101. Er bod ganddynt ymwybyddiaeth gyffredinol o'r honiadau a wnaed yn erbyn URC cyn darlledu'r rhaglen ddogfen, mae'n ymddangos nad oes gan unrhyw gorff allanol - megis Llywodraeth Cymru na Chwaraeon Cymru - y gallu na'r pŵer i ymyrryd. Mae hyn wedi arwain at alwadau gan rai am reoleiddiwr chwaraeon annibynnol.

102. Nid dyma'r methiant cyntaf o ran llywodraethu chwaraeon yn y DU yn y blynyddoedd diwethaf o bell ffordd. Mae'n dilyn sgandalau sy'n cynnwys hiliaeth mewn criced a chamdriniaeth mewn gymnasteg. Roedd yn drawiadol yn ein tystiolaeth nad oedd unrhyw gorff y tu allan i URC yn teimlo bod ganddo'r grym i ysgogi gwelliannau yn URC, a oedd yn ymddangos yn gyndyn i wneud hynny neu'n methu â gwneud hynny ei hun. Arweiniodd hyn at sefyllfa amhosibl, na allai ond gael ei datrys gan newyddiadurwyr, ac unigolion dewr a oedd yn fodlon siarad â nhw.

103. Nid ydym yn argyhoeddedig ar hyn o bryd y dylai'r bwlch hwn mewn llywodraethu gael ei lenwi gan wleidyddion. Ond po fwyaf o fethiannau llywodraethu chwaraeon sy'n dod i'r amlwg, a pho hiraf y bydd y gymuned chwaraeon yn methu â chael trefn ar ei phethau, y mwyaf fydd yr achos dros gynnwys gwleidyddion.

104. Nodwn sylw Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru, Brian Davies, bod yr hyn sy'n ofynnol gan rai o'r nodau cydraddoldeb yn llythyr cylch gwaith y sefydliad gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar sut y'u dehonglir.⁸⁴ Mae'r amwysedd hwn yn gwneud craffu ar gyflawni'r nodau hyn - gan Lywodraeth Cymru a'r Pwyllgor hwn - yn anodd. Rydym yn cwestiynu gwerth cynnwys nodau eang mewn llythyrau cylch gwaith, yn hytrach na gofynion diriaethol y gellir eu cyflawni.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion: [Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 15 Chwefror 2023, paragraff 203](#)

105. Dywedodd y Farwnes Thompson nad yw Chwaraeon Cymru yn rheoleiddiwr. Mae hyn yn gywir, ond nid yw'n golygu nad yw'r honiadau sy'n ymwneud ag URC yn berthnasol i waith Chwaraeon Cymru. Rydym yn pryderu y gallai gwaith a ariennir gan Chwaraeon Cymru i ddatblygu'r gêm menywod a merched fod wedi peri i fenywod a merched ymuno ag amgylchedd rhywiaethol yn URC. Credwn y dylai Chwaraeon Cymru ystyried y cyllid y mae'n ei ddarparu i gyrff llywodraethu cenedlaethol yng ngoleuni unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol yn y cyrff llywodraethu hyn.

Argymhelliad 5. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi sut y dylai'r sefydliadau y mae'n eu hariannu ddefnyddio'r cyllid hwn mewn llythyrau cylch gwaith. Mae craffu da yn dibynnu ar allu asesu a yw'r nodau hyn wedi'u cyflawni. I'r perwyl hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gofynion llythyrau cylch gwaith y sefydliadau y mae'n eu hariannu yn glir ac yn ddiriaethol.

Argymhelliad 6. Dylai Chwaraeon Cymru ystyried y cyllid y mae'n ei ddarparu i gyrff llywodraethu cenedlaethol yng ngoleuni unrhyw honiadau o ymddygiad amhriodol yn y cyrff llywodraethu hyn.